



BANK OF ENGLAND

Cynllun Cymraeg y Bank of England - adroddiad monitro 2019

Awst 2020

Cynllun Cymraeg y Bank of England - adroddiad monitro 2019

1 Cefndir

- 1.1 Cymeradwywyd Cynllun Cymraeg¹ ("cynllun y Banc") y Bank of England ("y Banc") gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 14 Hydref 2011. Diweddarwyd y Cynllun wedyn i gymryd cyfrif o: (a) creu'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus ("yr PRA"), fel is-gwmni i'r Banc, ym mis Ebrill 2013 (diweddariad wedi'i gymeradwyo gan y Comisiynydd y Gymraeg ar 20 Mai 2014); a (b) ail-lunio ymrwymiad y Banc i'w ddau bwrpas craidd yn un Datganiad Cenhadaeth hollgynhwysol ym mis Mawrth 2014 (diweddariad wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill 2015); ac (c) bod y PRA yn cael ei ddwyn o fewn endid cyfreithiol sengl y Bank of England ym mis Mawrth 2017 (diweddariad wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd y GCymraeg ar 18 Rhagfyr 2017).
- 1.2 Fel rhan o fonitro cynnydd y Banc wrth gyflenwi ei gynllun. Mae'r Banc wedi paratoi'r adroddiad monitor blynyddol hwn. Mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Mae hyn yn diwallu ymrwymiad i adrodd am gynnydd fel y'i cyflwynir ym mharagraff 8.3 cynllun y Banc.

2 Sut y cafodd y Gymraeg ei hystyried a'i hyrwyddo

- 2.1 Dros y cyfnod adrodd, mae'r Banc wedi parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.
- 2.2 Yn gyson ag adran 6.10 o'i gynllun, mae'r Banc wedi parhau i hyrwyddo ei ddeunyddiau Cymraeg trwy eu gwneud yn uniongyrchol hygyrch o holl dudalennau'r wefan trwy gyfrwng 'dolen gyflym' ('Cymraeg') yn nhroedyn pob tudalen. Mae hyn yn mynd â'r gynulleidfa i un dudalen sy'n tynnu ynghyd yr holl gynnwys Cymraeg ar wefan y Banc. Yn ystod y cyfnod adrodd, derbyniodd y dudalen 1,049 o ymweliadau unigryw â thudalennau.
- 2.3 Yn gyson ag adran 6.11 o'i gynllun, mae'r Banc yn parhau i ddarparu deunydd addysgol newydd a diweddar yn Gymraeg. Mae ein cyfres allweddol o adnoddau rhad ac am ddim ar gyfer ysgolion uwchradd - o'r enw econoME - wedi'u cynllunio i helpu pobl ifanc i ddeall yr economi yn well a darparu'r sgiliau dadansoddi iddynt wneud penderfyniadau gwybodus. Cafodd y deunydd ei greu gan arbenigwyr addysgol mewn ymgynghoriad â'r Bank of England, ac mae wedi'i achredu gan y Gymdeithas ABGI ac Young Money [Arian Ifanc]. Mae EconoME yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho ac mae ar gael yn Gymraeg.²
- 2.4 Ym mis Gorffennaf 2020 lanswyd adnodd newydd ar gyfer ysgolion cynradd o'r enw 'Money and Me'. Adnodd addysgu 12 gwrs am ddim yw 'Arian a Fi' sy'n cyflwyno pobl ifanc i sut mae arian a'r economi yn gweithio. Fe wnaethom ei greu mewn partneriaeth ag arbenigwyr addysgol yn Beano a'r Times Education Supplement. Mae 'Arian a Fi' yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho ac mae ar gael yn Gymraeg.³
- 2.5 Rydym hefyd yn parhau i gyflenwi fersiynau Cymraeg o lyfrynnau ein Amgueddfa: 'Eich Arian: Beth mae'r Banc yn Ei Wneud' ac 'Eich Arian a'r System Ariannol' ar gais.

¹ <https://www.bankofengland.co.uk/-/media/boe/files/about/boe-welsh-language-scheme.pdf>

² <https://www.bankofengland.co.uk/education/econome>

³ <https://www.bankofengland.co.uk/education/education-resources/money-and-me>

2.6 Yn gyson ag adrannau 4.5, 6.6 a 6.7, mae'r Banc yn parhau i sicrhau bod ei brif lyfryn addysg ar bapurau banc, 'Cymerwch olwg agosach', yn Gymraeg. Yn ogystal, mae'r Banc hefyd wedi cynhyrchu fersiynau Cymraeg o'i daflen a'i boster sy'n manylu ar y nodweddion diogelwch ar y papur £20 polymer newydd⁴. Roedd siaradwr y Gymraeg hefyd yn bresennol ar stondin y Banc yn hyrwyddo ein deunyddiau addysgol ar bapurau banc yn Sioe Fusnes Cymru yn Abertawe.

2.7 Mae Asiantaeth y Banc i Gymru yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg, yn unol â'r Atodiad i gynllun y Banc:

- Anogir staff Asiantaeth y Banc i Gymru i gynnwys cyfarchiad byr yn Gymraeg wrth ateb y ffonau;
- Mae llofnodion, ymwadiadau a chynghor ar y Ddeddf Diogelu Data Dwyieithog Cymraeg/Saesneg lle mae hynny'n briodol, yn cael eu cynnwys yn nhroedynnau e-byst a anfonir gan staff yr Asiantaeth; a
- Mae cyfrif Twitter yr Asiantaeth i Gymru yn adlewyrchu'r iaith Gymraeg

Mae Dirprwy Asiant y Banc, sy'n siarad Cymraeg, yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymweld â chwmnïau lle mae hynny'n berthnasol.

2.8 Ni dderbyniodd y Banc unrhyw geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 na cheisiadau gwrthrych am wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

2.9 Mae'r Banc wedi parhau i ddefnyddio cyfieithwyr/cyfieithwyr ar y pryd cymwys yn unig wrth gyfieithu dogfennau (megis yr adroddiad monitro blynyddol hwn) i'r Gymraeg. Mae hyn yn gyson â pharagraff 7.8 o'r cynllun.

3 **Data ar gŵynion a'r camau a gymerwyd i'w datrys**

3.1 Mae paragraff 10.2 o'r Cynllun yn darparu ar gyfer anfon cwynion neu awgrymiadau ar gyfer gwella i'r Banc. Yn ystod y cyfnod adrodd ni dderbyniodd y Banc unrhyw gŵynion nac awgrymiadau ar gyfer gwella.

⁴ <https://www.bankofengland.co.uk/banknotes/counterfeit-banknotes/how-to-check-your-banknotes>